

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/10



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg
a Chyfathrebu

08/10/2018

Ymchwiliad byr i oblygiadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i feysydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'ch ymchwiliad. Hoffwn bwysleisio'r pwyntiau canlynol:

- Ni wyddom eto pa fath o berthynas fydd rhwng y DU a'r UE ar ôl Mawrth 2019. Mae diffyg eglurder yn ei gwneud yn anodd rhagweld goblygiadau posibl Brexit i wahanol feysydd polisi, gan gynnwys y Gymraeg. Er hynny, mae'n deg a phriodol tynnu sylw at risgiau a heriau a allasai godi o ganlyniad i'r broses.
- Mae risgiau ar gyfer siaradwyr y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn sgil ymadawiad y DU o'r EU yn peri gofid. Ymysg eraill, gallasai Brexit:
 - effeithio ar argaeledd rhaglenni a phrosiectau yng Nghymru sy'n allweddol er mwyn creu gweithlu medrus dwyieithog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a byd busnes (adran 3);
 - effeithio ar sectorau o'r economi sy'n bwysig i siaradwyr y Gymraeg ac sy'n cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith i raddau helaeth, gan gynnwys y sector amaeth a'r sector addysg (adran 4)
 - atal siaradwyr y Gymraeg rhag manteisio ar ymyriadau Ewropeaidd sy'n hybu amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol (adran 5);
 - tanseilio'r parch at gymunedau lleiafrifol ym Mhrydain, gan gynnwys cymunedau ieithyddol, ac ymyleiddio eu llais mewn bywyd cyhoeddus (adran 6).

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



- effeithio ar y gyfundrefn diogelu hawliau dynol yn y DU, gydag effaith posibl ar hawliau ieithyddol hefyd (adran 7).
- O'r meysydd uchod, hyd yn hyn ymrwymodd Llywodraeth Cymru rywfaint o sylw i effaith Brexit ar y Gymraeg yng nghyd-destun y sector amaeth. Er hynny, ni fu cymaint o sylw i'r goblygiadau eraill posibl.
- Mae'n gwbl allweddol nad yw Brexit yn tanseilio'r ymdrech i greu rhagor o siaradwyr y Gymraeg na'r defnydd a wneir ohoni. Er mwyn diogelu siaradwyr y Gymraeg, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo sylw i oblygiadau posibl Brexit ar y Gymraeg y tu hwnt i'r sector amaeth; a chynllunio ar frys er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol.

1. Cyd-destun yr ymateb hwn

Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau rhoddir dyletswyddau statudol ar sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg. Un o amcanion strategol y Comisiynydd yn ogystal yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a dyna a wneir yma. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Comisiynydd ar y wefan www.comisiynyddygyymraeg.cymru

2. Sylwadau cychwynnol

A ninnau chwe mis i ffwrdd o'r dyddiad a osodwyd ar gyfer Brexit, ni wyddom o hyd ba fath o berthynas fydd rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae diffyg eglurder yn ei gwneud yn anodd rhagweld goblygiadau posibl Brexit ar wahanol feysydd polisi, gan gynnwys y Gymraeg. Er hynny, mae'n deg a phriodol tynnu sylw at y risgiau a'r heriau i siaradwyr y Gymraeg a allasai godi o ganlyniad i'r broses.

Dros y misoedd diwethaf cyfrannais sylwadau mewn ymateb i sawl ymgynghoriad sy'n berthnasol i'r ffocws hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol [Gwydnwch a pharodwydd: ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit](#) (Tachwedd 2017);
- Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid [i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr UE](#) (Mai 2018)



- Ymgynghoriad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig [Fframweithiau cyffredin y DU ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd](#) (Mai 2018)
- Ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg [Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach](#) (Mehefin 2018)

Mae'r sylwadau hyn yn edrych ar effaith Brexit ar yr economi'n bennaf. Byddaf yn crynhoi'r prif ddadleuon isod, ond anogaf y Pwyllgor i ystyried hefyd y sylwadau uchod yn eu cyfanrwydd os yn bosibl.

3. Effaith Brexit ar raglenni a gweithgareddau economaidd penodol

Ceir enghreifftiau o ddefnyddio cyllid Ewropeaidd i gefnogi rhaglenni a gweithgareddau penodol sydd â photensial i blethu buddion economaidd ac ieithyddol. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni hyfforddi sy'n cyfrannu at greu gweithlu medrus dwyieithog; a phrosiectau sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned a byd busnes gan fanteisio ar yr un pryd ar yr iaith fel ased economaidd. Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys:

- rhaglen 'Sgiliau ar gyfer yr Economi Ddigidol', sef menter gwerth £4.38 miliwn a gyflwynwyd rhwng 2011 a 2015 o dan nawdd ariannol Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gynnig hyfforddiant yn y maes creadigol er mwyn hybu diwydiant cystadleuol yng Nghymru.¹ Gosododd y prosiect darged o gyfranogiad o 20 y cant gan siaradwyr Cymraeg.²
- cynllun 'Llwybrau i'r Brig' Urdd Gobaith Cymru oedd yn weithredol rhwng 2009 a 2013 o dan nawdd ariannol Cronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc feithrin sgiliau cysylltiedig â byd gwaith, cynorthwyo eu datblygiad personol a chymdeithasol, a helpu iddynt ddatblygu drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cymunedau lleol;³
- llwyddiant Menter Iaith Conwy i ddenu grant o £85,000 i greu meithrinfa gyfrwng Gymraeg yng Nghyffordd Llandudno;⁴
- llwyddiant Four Cymru i ddenu cefnogaeth ariannol o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig i gyflwyno prosiect 'Marchnad Lafur Cymraeg' mewn


¹ Gwerthusiad interim o'r rhaglen Sgiliau ar gyfer yr Economi Ddigidol (10 Ionawr 2013) <http://gov.wales/funding/eu-funds/previous/project-evaluations/digital-economy/?skip=1&lang=cy>. Comisiynydd Cwmni Arad i gynhyrchu gerthusiad terfynol ond ni lwyddwyd i ganfod fersiwn cyhoeddus y ddogfen: <https://arad.wales/project/creative-skillset-cymru-final-evaluation-of-the-skills-for-the-digital-economy-programme-2015/>

² Creative Skillset, Amrywiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol,

http://creativeskillset.org/cy/nations/wales/skills_for_the_digital_economy/diversity_and_environmental_sustainability

³ <http://www.urdd.org/cms/llwybrau>

⁴ BBC, Effaith y refferendwm ar fudiadau sy'n hybu'r Gymraeg (5 Gorffennaf 2016) <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/gwleidyddiaeth-refferendwm-ue-36707297>



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

partneriaeth â Mentrau Iaith Cymru. Nod y prosiect hwn yw 'datblygu'r Gymraeg fel catalydd economaidd a fyddai'n gyfrwng i ddatblygu ac adfywio Cymru Wledig'.⁵

4. Effaith Brexit ar sectorau'r economi sy'n enwedig o bwysig i siaradwyr y Gymraeg

Mae sawl adroddiad yn amlygu'r cysylltiad rhwng economi a hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.⁶ Gallasai Brexit gael effaith ar y sectorau hynny sy'n feysydd cyflogaeth pwysig i siaradwyr y Gymraeg ac sy'n cynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Gwyddom o Gyfrifiad 2011 ac ymchwil pellach⁷ fod amaethyddiaeth, lletygarwch a gwasanaethau bwyd ymysg y sectorau sydd â niferoedd a chanrannau uchel o siaradwyr y Gymraeg.⁸ Fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei gydnabod, dyma'r meysydd cyflogaeth sy'n cynnal cymunedau mewn ardaloedd gwledig lle mae canrannau a niferoedd siaradwyr y Gymraeg yn draddodiadol uchel ond lle maent wedi gostwng dros y degawd diwethaf.⁹ Mae cefnogaeth ariannol yr UE i'r sectorau hyn yn bellgyrhaeddol. Ym mis Mehefin 2017 clywodd Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi am effaith 'ddinistriol' bosibl Brexit ar gymunedau gwledig yng Nghymru sy'n economaidd fregus, ac sydd hefyd yn gadarnleoedd y Gymraeg.¹⁰

Ceir sectorau economi eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio. Manteisiodd y sector creadigol yn y gorffennol ar gronfa Ewropeaidd 'EU's MEDIA programme' ac 'Ewrop Greadigol' yn diweddarach er mwyn cefnogi cynhyrchiad Y Gwyll¹¹ er enghraifft.

Mae addysg ôl-16 yn sector arall sy'n haeddu sylw. Mae'r sector yn ganolog i'r ymdrech i ddatblygu gweithlu medrus dwyieithog. Ar yr un pryd, mae sefydliadau addysg ôl-16 yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol. Ar hyn o bryd, mae'r sefydliadau hyn yn manteisio ar gefnogaeth ariannol pellgyrhaeddol o Frwsel trwy raglenni megis Horizon 2020 i gefnogi ymchwil ac arloesi; y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer rhaglenni hyfforddiant amrywiol, gan gynnwys prentisiaethau; ac Erasmus+ i gefnogi cyfnewidfa myfyrwyr a

⁵ <http://four.cymru/wordpress/wp-content/uploads/2017/09/Marchnad-Lafur-Cymraeg.pdf>

⁶ Am ddadleuon ynghylch y cysylltiad rhwng y Gymraeg ac economi, gweler, er enghraifft, [Cynyddu Nifer y Cymunedau Lle Defnyddir y Gymraeg fel Prif Iaith](#) (Rhagfyr 2013); [Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd](#) (Ionawr 2014); Prifysgol Bangor, [Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned. Astudiaeth Ymchwil](#) (Hydref 2015); Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol [Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog](#) (Mehefin 2016); Adroddiad gan Weithgor y Cyfrifiad i Gyngor Sir Caerfyrddin, [Y Gymraeg yn Sir Gâr](#) (Mawrth, 2014); Comisiynydd y Gymraeg, [Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014-2020](#); Mentrau Iaith Cymru, [Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Gymraeg; Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gyfer Cymru Ddwyieithog](#) (2003); [Iaith fyw: Iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17](#) (Mawrth 2012); [Iaith fyw: Iaith byw – Bwrw mlaen](#) (Awst 2014); [Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr](#) (2017).

⁷ Llywodraeth Cymru, [Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector](#) (2014).

⁸ Amaethyddiaeth, egni a dwr yw'r diwydiannau sydd â'r ganran uchaf o weithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg (29.5 y cant). Cyflogir hefyd niferoedd a chanrannau uchel o siaradwyr y Gymraeg gan y diwydiant dosbarthu, llety a gwasanaethau bwyd – tua 44,000 sef tua 15 y cant o weithlu'r sector. <http://gov.wales/docs/statistics/2013/131129-welsh-language-labour-market-en.pdf>

⁹ [Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr](#) (2017), t. 16.

¹⁰ Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd, [Brexit: devolution](#) (Mehefin, 2017) t.32.

¹¹ BBC, [Hinterland shows Wales way for more EU funding](#) (16 Gorffennaf 2014), <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-28313857>



staff gyda sefydliadau addysgol tramor. Ers 2014, dyfarnwyd dros £40 miliwn i sefydliadau yng Nghymru trwy Erasmws+ a manteisiodd dros 7,000 o unigolion ar y gefnogaeth.¹² Un enghraifft benodol yw llwyddiant ColegauCymru i ddenu cyllid Erasmws+ er mwyn galluogi ymarferwyr o'r sector ôl-16 yng Nghymru i deithio i Wlad y Basg a Chatalwnia ac adeiladu dealltwriaeth well o addysg ddwyieithog yn y cyd-destunau hynny.

Fel y nodais mewn manau eraill, mae'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn addysg ôl-16 yn gyffredinol yn isel.¹³ Gan nad oes sicrwydd ar hyn o bryd am barhad y ffrydiau ariannu presennol yn y sector ôl-16 yn yr hirdymor, mae risg y gallasai Brexit gyfyngu ar y cyfleoedd ariannol sydd gan sefydliadau addysgol yn y sector AB ac AU ar hyn o bryd. Gall hyn, o ganlyniad, danseilio'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer siaradwyr y Gymraeg yn y sectorau hyn. Mae heriau sy'n unigryw i ddarpariaeth Gymraeg yn ogystal. Oherwydd y niferoedd is yn gymharol sy'n debygol o ddilyn cyrsiau addysg uwch yn y Gymraeg mae modiwlau Cymraeg yn dueddol o gostio mwy y pen i'w cynnig. Dyma oedd dehongliad [adroddiad gan y London School of Economics](#) yn 2006 ar gyfer CCAUC. Er bod y canfyddiadau hyn yn seiliedig ar y sefyllfa yn y sector AU, gellir tybio eu bod yn berthnasol hefyd i'r sector AB a DSW. Os felly, pryderaf y gallasai darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddioddef pwysau anghymesur os daw ffynonellau ariannu yn yr holl sectorau hyn yn brinnach.

5. Effaith Brexit ar gyfleoedd i siaradwyr y Gymraeg ar y lefel Ewropeaidd

Mae'r UE yn blatfform pwysig hefyd ar gyfer siaradwyr amryw o ieithoedd llai i weithio ar y cyd a manteisio ar gefnogaeth ariannol a gwleidyddol.

Mae'r UE yn ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth o werth amrywiaeth ieithyddol; annog chwalu rhwystrau sy'n atal deialog rhyngddiwylliannol; a chefnogi'r egwyddor y dylai pob dinesydd feistroli dwy iaith yn ogystal â'u mamiaith.¹⁴ Yn 2013 mabwysiadodd Senedd Ewrop [ddatganiad](#) ar amrywiaeth ieithyddol ac ieithoedd sydd dan berygl yn yr Undeb Ewropeaidd – y cam diweddaraf mewn cyfres o ddatganiadau, cynlluniau gweithredol a strategaethau blaenorol ar y pwnc.¹⁵ Hybir ieithoedd llai hefyd trwy ddigwyddiadau megis [Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd](#).

Yn ogystal, mae'r UE yn cefnogi ymchwil i ieithoedd, a phrosiectau penodol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo amlieithrwydd. Er enghraifft, yn 2017 comisiynodd un o

¹² <https://www.erasmusplus.org.uk/results-and-statistics>

¹³ Gweler Adroddiad 5 Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg am ddarlun cyffredinol o'r sefyllfa <http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%205-mlynedd%20-%205-year%20Report.pdf>

¹⁴ [COM\(2008\) 0566](#)

¹⁵ Er enghraifft: ([COM\(2003\) 0449](#); [COM\(2005\) 0596](#)).



bwyllgorau'r Senedd Ewrop [astudiaeth](#) 'Minority Languages and Education: Best Practices and Pitfalls', sy'n ystyried sefyllfa ieithoedd lleiafrifol ar sail 13 astudiaeth achos. Mae'r UE hefyd yn cefnogi'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Modern (ECML) a rhwydweithiau megis NPLD (Rwydwaith Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol). Rhwng 2013 a 2016 cyflwynwyd dan nawdd Ewropeaidd prosiect [LEARNMe](#) (Language and Education Addressed through Research and Networking by Mercator) ar y cyd rhwng chwe chanolfan ymchwil ar draws Ewrop, gan gynnwys Canolfan Mercator ar gyfer Cyfryngau, Ieithoedd a Diwylliant yn Aberystwyth. Mae hybu amrywiaeth ieithyddol a dysgu ieithoedd ymysg prif nodau rhaglen Erasmws+.

Gall Brexit atal siaradwyr y Gymraeg rhag fanteisio ar ymyriadau Ewropeaidd sy'n hybu amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol.

6. Effaith Brexit ar agweddau tuag at leiafrifoedd

Yn ei ddarlith ar 18 Mawrth 2018¹⁶ awgrymodd Emyr Lewis fod elfen o senoffobia wrth wraidd y bleidlais i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd; a bod perygl y bydd Brexit yn arwain at ymleiddio llais cymunedau lleiafrifol yn y trafodaethau gwleidyddol a thanseilio parch iddynt.

Ni ellir anwybyddu'r ddadl hon yng nghyd-destun y dystiolaeth gyson am y cynnydd trawiadol yn nifer y troseddau casineb ers pleidlais Brexit. Cofnodwyd 41 y cant yn fwy o droseddau fel hyn ym mis Gorffennaf 2016 o gymharu â mis Gorffennaf 2015.¹⁷ Bu cynnydd o 29 y cant yn y nifer o droseddau o'r fath yn 2016/17 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.¹⁸

Ni ellir anwybyddu'r ddadl hon chwaith yng nghyd-destun sylwadau sarhaus sy'n targedu siaradwyr y Gymraeg, megis erthygl y colofnydd Rod Liddle am Gymru ym mis Ebrill eleni.¹⁹ Er ei bod hi'n bwysig ein bod yn parchu rhyddid i fynegi barn ar wahanol bynciau, mae'r cynnydd yn y sylwadau dilornus am Gymru, y Gymraeg a'i siaradwyr yn peri pryder. Dros y misoedd diwethaf rydym wedi gweld nifer o sefyllfaoedd lle caiff pobl eu sarhau - ac mae hyn yn gwbl annerbyniol.

Er nad oes ymchwil cadarn sy'n cysylltu'r datganiadau o'r fath â Brexit, credaf fod yr hinsawdd gymdeithasol sydd gennym heddiw yn sgil y bleidlais yn creu awyrgylch sy'n ffafriol ar gyfer ffyniant agweddau fel hyn.

¹⁶ <http://gwallter.com/politics/wales-and-brexit-by-emyr-lewis.html>

¹⁷ <https://fullfact.org/crime/hate-crime-and-eu-referendum/>

¹⁸ <https://fullfact.org/crime/hate-crime-england-and-wales/>

¹⁹ <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/43697936>



Rwyf yn trafod y mater hwn ag unigolion a grwpiau sydd â diddordeb er mwyn gweld sut y gallwn symud yr agenda yn ei blaen. Ymysg yr opsiynau, credaf bod angen ystyried deddfu i warchod hawliau ac atal casineb at iaith.

7. Effaith Brexit ar y gyfundrefn hawliau yn y DU gan gynnwys hawliau ieithyddol

Yn olaf, gallasai Brexit effeithio ar y gyfundrefn diogelu hawliau dynol sylfaenol yn y DU. Er bod yr effaith bosibl ar hawliau ieithyddol unigolion yn ymddangos yn gymharol gyfyngedig ar hyn o bryd, mae'n rhaid monitro'n ofalus ddatblygiad y drafodaeth am ddyfodol Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r cynlluniau i gyflwyno Bil Hawliau Prydeinig yn ei lle.

Mae hawliau ieithyddol siaradwyr y Gymraeg yn tarddu o sawl ffynhonnell. Ar y lefel ryngwladol, mae'r DU yn rhwym wrth y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR); Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd (EUCFR); y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Lleafrifol (ECRML); a'r Confensiwn Fframwaith ar gyfer Amddiffyn Lleafrifoedd Rhanbarthol Cyngor Ewrop (FCPNM). Ar y lefel Brydeinig, ymgorfforwyd rhai o erthyglau'r ECHR i gyfraith Prydain drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Ar y lefel genedlaethol Gymreig ceir Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

- Mae ECHR (erthygl 14) a Deddf Hawliau Dynol 1998 yn gwahardd gwahaniaethu ar sail iaith. Mae'r ECHR yn tarddu o Gyngor Ewrop ac yn cael ei blismona gan Lys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbourg. Er hyn, yn sgil cyflwyno Ddeddf 1998 gellir hefyd geisio cyfiawnder am dorri'r hawl mewn llysoedd ym Mhrydain.

Mae'n bwysig tanlinellu nad yw Deddf 1998 yn diogelu rhag gwahaniaethu ym mhob maes. Er mwyn dibynnu ar yr hawl hwn, mae'n rhaid i unigolyn ddangos bod gwahaniaethu wedi effeithio ar ei fwynhad o un neu ragor o'r hawliau eraill yn y Ddeddf. Mae deddfau eraill sy'n cynnig diogelu mwy cyffredinol, megis Deddf Cydraddoldeb 2010. Er hyn, nid yw'r iaith yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf 2010.

- Mae EUCFR hefyd yn gwahardd gwahaniaethu ar sail iaith, ac yn gosod dyletswydd ar yr Undeb i barchu amrywiaeth ieithyddol. Mae EUCFR yn tarddu o'r Undeb Ewropeaidd ac yn cael ei blismona gan Lys Cyfiawnder yr UE (CJEU).
- Mae'r Gymraeg, Gaeleg yr Alban a'r Wyddeleg yn cael eu diogelu o dan Ran II a ac erthyglau penodol o Ran III ECRML.²⁰ Mae'r Siarter yn ymrwymo Prydain i gymryd camau gweithredol i amddiffyn a hefyd i weithredu er lles yr ieithoedd

²⁰ 52 ar gyfer y Gymraeg, 39 ar gyfer Gaeleg yr Alban a 36 ar gyfer Gwyddeleg



hynny.²¹ Mae pwyllgor penodol o fewn Cyngor Ewrop yn monitro fod ECRML yn cael ei weithredu yn ymarferol ar sail adroddiadau cyfnodol ac ymweliadau â'r aelod-wladwriaethau. Cânt wneud argymhellion ond ni chânt eu gorfodi.

- O dan FCPNM mae Prydain yn rhwym wrth ddyletswydd i ddiogelu defnydd ieithoedd lleiafrifol yn gyhoeddus ac yn breifat a hefyd, o dan amodau penodol, mewn cysylltiad ag awdurdodau cyhoeddus. Mae dulliau plismona FCPNM yn debyg i'r dulliau ar gyfer ECRML.
- Yn olaf, sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hawliau a rhyddid newydd i ddefnyddwyr y Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gosod safonau'r Gymraeg ar sefydliadau, sef rhestr o'r pethau y mae'n rhaid iddynt eu darparu a'u gwneud yn Gymraeg. Y safonau hyn sy'n creu'r hawliau i unigolion. Mae'r Mesur yn sefydlu hefyd y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am reoleiddio cydymffurfiaeth â gofynion y Mesur.

O ystyried y materion uchod, gallasai Brexit effeithio ar y llwybrau sydd ar gael i siaradwyr y Gymraeg geisio cyfiawnder am dorri eu hawliau; ac ar y lefel o hawliau ac amddiffynfeydd sydd ar gael iddynt.

Mae Deddf yr UE (Ymadael) 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer dileu EUCFR o gyfraith y DU. Hefyd, yn ôl y Ddeddf, ar ôl Brexit ni fydd unrhyw rôl i CJEU o ran dehongli'r cyfreithiau newydd, ac ni fydd gofyn ar lysoedd i ystyried cyfraith achos CJEU y dyfodol. Golyga hyn y bydd yr unigolion sy'n ceisio herio gwahaniaethu ar sail iaith yn colli un llwybr o apêl.²²

Ar yr un pryd, bydd yr amddiffynfeydd ar sail EHRC, ECRML a FCPNM yn parhau. Fframweithiau o dan Gyngor Ewrop yw'r rheiny, a bydd y DU yn parhau i fod yn aelod o'r Cyngor ar ôl Brexit. Hefyd, bydd erthygl 14 y EHRC yn parhau'n rhan o gyfraith Prydain trwy Ddeddf 1998. Bydd yr amddiffynfeydd sy'n tarddu o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn parhau hefyd.

Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw dyfodol y Ddeddf 1998 yn gwbl sicr. Yn 2014 cynigodd y Blaid Geidwadol ddiddymu'r Ddeddf a dod ag awdurdod Llys Hawliau Dynol Ewrop dros ddyfarnu ar hawliau ym Mhrydain i ben.²³ Nodwyd ar yr un pryd y bwriad i gyflwyno

²¹ https://www.coe.int/en/web/conventions/full-list/-/conventions/treaty/148/declarations?p_auth=adpW1NPI

²² Mae hyn yn gyson gyda asesiad Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ac eraill o oblygiadau eangach o golli EUCFR: <https://www.equalityhumanrights.com/cy/ein-gwaith-hawliau-dynol/effaith-aelodaeth-ue-ar-gydraddoldeb-hawliau-dynol>

²³ [Protecting Human Rights in the UK](#).



Bil Hawliau Prydeinig yn lle Deddf 1998. Ers hynny, bu rhai awgrymiadau bod y cynigion hyn dal yn cael eu hystyried.²⁴

Os felly, mae'n rhaid monitro'n ofalus ddatblygiad y drafodaeth hon ac unrhyw effeithiau posibl ar hawliau ieithyddol ym Mhrydain. Yn sicr, ni ddylai unrhyw ddiwygio danseilio neu wanhau hawliau siaradwyr y Gymraeg. Ar yr un pryd, mae'r amddiffynfeydd yn Neddf 1998 yn gyfyngedig, ac nid oes modd gorfodi'r argymhellion ar sail monitro ECRML a FCPNM. Nid yw'r iaith yn nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Efallai bod cyfle gennym felly i ailymweld â sut mae'r gyfundrefn bresennol yn diffinio a diogelu hawliau siaradwyr Cymraeg felly.

8. Ymateb Llywodraeth Cymru hyd yn hyn

Croesawaf ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu ardaloedd gwledig lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf rhag unrhyw effeithiau niweidiol posibl Brexit ar y sector amaeth²⁵ - a hynny hefyd mewn ymateb i argymhelliad diweddar gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.²⁶ Edrychaf ymlaen at weld rhagor o gynlluniau penodol gan y Llywodraeth ynghylch sut y bwriada liniaru effaith Brexit ar y Gymraeg yn y sector. Yn hynny o beth, tybiaf fod ymgynghoriad presennol y Llywodraeth 'Brexit a'n Tir' yn cynnig cyfle euraidd i osod cyfeiriad ac egwyddorion sylfaenol ar gyfer y cynlluniau hynny.

Ar yr un pryd, ni fu cymaint o sylw i'r goblygiadau eraill posibl Brexit i'r Gymraeg. Wrth i'r broses o ymadael â'r UE fynd yn ei flaen credaf ei bod yn hanfodol fod ei effaith ar y Gymraeg yn derbyn sylw priodol ym mhob agwedd o waith y Llywodraeth.

9. Casgliad

Mae'n gwbl allweddol nad yw Brexit yn tanseilio'r ymdrech i greu rhagor o siaradwyr y Gymraeg na'r defnydd a wneir ohoni. Er mwyn diogelu siaradwyr y Gymraeg, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo sylw i oblygiadau posibl Brexit ar y Gymraeg y tu hwnt i'r sector amaeth; a chynllunio ar frys i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol.

Hyderaf y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd.

Yr eiddoch yn gywir,

²⁴ E.e. 25 Ebrill 2016 [dywedodd](#) Theresa May y hoffai i Brydain adael Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ond aros yn aelod o'r UE. [Cadarnhaodd](#) Liz Truss ar 22 Awst 2016 fod y Lywodraeth yn parhau yn ei hawydd i gyflwyno'r Bil, ond ni rhoddodd yr amserlen.

²⁵ *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* (2017), t. 62.

²⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, '[Fframweithiau cyffredin ar gyfer yr amgylchedd ar ôl Brexit](#)' (Gorffennaf 2018)



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Meri Huws

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg